



Ysgol Pentreuchaf

89. Polisi Gosod Targedau Cwricwlaidd a Pheronol

Nod

Rhoi cyfleoedd i bob plentyn fanteisio ar bob cyfle i gyrraedd y safon uchaf posibl. Mae gosod targedau yn ffordd i ni adnabod ac unodi uchelgais penodol i wella'r safonau gyrhaeddir gan bob un o'n plant. Gall targedau fod yn berthnasol i blant unigol, grwpiau o blant o fewn dosbarth neu flynyddoedd neu dosbarthiadau cyfan.

Amcanion

1. Mae gosod targedau yn ein galluogi i ofyn cwestiynau am berfformiad yr ysgol –
 - i) Pa mor dda yr ydym yn ei wneud?
 - ii) Pa mor dda y dylem fod yn ei wneud?
 - iii) Beth yn fwy y dylem fod yn anelu at ei wneud?
 - iv) Beth sy'n rhaid i ni ei wneud i wneud iddo ddigwydd?
 - v) Pa gamau sydd angen i ni ei gymryd a sut fyddwn yn adolygu progress?
2. Gosod sialensau i'n plant wneud yn well.
3. Annog y plant i drafod ac adolygu eu datblygiad yn rheolaidd.
4. Arwain at ffocws penodol i ddysgu ac addysgu
5. Helpu'r ysgol i farnu pa mor dda yr ydym yn ei wneud mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg.

Canllawiau

Targedau Cwricwlaidd

1. Rhaid cofio bod plentyn wrth wreiddyn y broses. Mae'r targedau a osodwn yn cynnig sialens ond hefyd yn realistig ac yn cymryd sylw o fan cychwyn dysgu pob plentyn.
2. Pan fydd plant 3 oed yn cychwyn yn yr ysgol, byddwn yn defnyddio'r ddogfen 'Cam Cyntaf' sy'n ein galluogi i osod targedau os bydd angen.
3. Ar ddechrau cyfnod plentyn yn y dosbarth Derbyn byddwn yn gwneud yr 'Asesu Sylfaen' ac yn unodi targedau ieithyddol / mathemategol / personol a chymdeithasol i'w trafod gyda'r rhieni. Bydd yr AALI yn cynhyrchu data sy'n ein galluogi i gymharu canlyniadau Asesu Sylfaen bechgyn a merched, cymharu gydag ysgolion tebyg, y dalgylch a'r sir.
4. Bydd yr athrawon dosbarth yn gosod targedau i bob plentyn mewn Cymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth (CA1) a Chymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth (CA2). Defnyddir canlyniadau asesiadau tymhorol a mis Mai/Mehefin i osod targedau ym mhob agwedd o bob maes. Byddwn yn targedu plant sydd ychydig yn is neu ychydig yn uwch na'r 'norm'.
5. Byddwn yn bwydo targedau pob cohort i'r AALI. dair blynedd ymlaen, ond maent hwy a ninnau yn sylweddoli y bydd angen addasu weithiau ac na fydd targedau, o angenrheidrwydd yn gwella bob blwyddyn gan eu bod yn ddibynol ar allu a photensial pob plentyn.
6. Caiff targedau a chanlyniadau plant B2 a B6 y flwyddyn flaenorol eu cyhoeddi yn Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni, ynghyd â thargedau am y tair blynedd i ddod.
7. Gyda thargedau personol, byddwn yn gofyn i blant osod eu targedau eu hunain, a'u trafod gyda ni. Mae adborth rheolaidd gan athrawon yn dangos i blant sut i wella eu gwaith a chyrraedd eu targedau. Mae targedau'r disgyblion yn golygu fod yn rhaid iddynt wneud penderfyniadau am eu dysgu eu hunain. Mae hyn yn gymorth iddynt ddysgu'n fwy effeithiol gan iddynt grisialu beth sydd angen iddynt ei wneud i wella a llwyddo.
8. Byddwn yn trafod targedau personol gyda rhieni deirgwaith y flwyddyn yn y nosweithiau rhieni. Mae hyn yn helpu'r rhieni unodi beth allant hwy ei wneud i gefnogi eu plant gyda'u gwaith a'u hannog i wella.

9. Mae gennym hefyd dargedau cyffredinol e.e. byddwn yn annog y plant i gymryd pob cyfle i fanteisio ar brofiadau cyfoethog, yn ymweliadau, weithdai, gweithgareddau all gwricwlaidd a.y.y.b.
10. Bob blwyddyn byddwn yn unodi targedau i symud yr ysgol ymlaen trwy'r drefn Hunan Arfarnu a'r holiaduron rannwn i'r plant, rhieni, llywodraethwyr a'r staff. Byddwn yn ymhelaethau ar y targedau hyn yn y Cynllun Datblygu Ysgol.
11. Rydym hefyd yn gosod targed presenoldeb (i blant B1 i B6) yn flynyddol.

Casgliad

Trwy osod targedau cytunedig gyda'r plant, gallwn eu harwain i fod yn fwy annibynnol ynglŷn â'u dysgu, a rhoi'r sgiliau angenrheidiol iddynt wella yn y presennol a'u harfogi at y dyfodol, i ddysgu ydrol oes medru unodi yr hyn sydd arnynt angen ei wneud i wella eu perfformiad.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____